

Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Cwm Taf

Adolygiad Blynyddol

1 Ebrill 2018 – 31 Mawrth 2019



cefnogi pobl
cefnogi annibyniaeth

County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol, y Cyngorwyr Geraint Thomas a David Hughes	Tud 3
Rhagarweiniad	Tud 4
Astudiaeth Achos Ranbarthol A	Tud 5
Astudiaeth Achos Ranbarthol B	Tud 6
Y modd y caiff pobl sy'n cyrchu gwasanaethau eu cynnwys	Tud 7
Datblygiadau Gwasanaeth	Tud 9
Grant Cefnogi Tai	Tud 17
Arfarniad Aelodau PCRh	Tud 18
Llywodraethu a Chymhennu	Tud 19
Atodiad A	Tud 20



cefnogi **pobl**
cefnogi annibyniaeth

1. Crynodeb Gweithredol

Fel Cadeiryddion Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Cwm Taf dros y 12 mis diwethaf, mae hi wedi bod yn bleser i oruchwylio'r cynnydd mawr a wnaed i gomisiynu'n rhanbarthol, ac i barhau â'r gwaith sy'n sicrhau fod cefnogaeth o'r ansawdd orau'n cael ei darparu ar gyfer y gwasanaethau cartrefu ar draws yr holl ardal.

Yn ystod y flwyddyn a aeth heibio, mae aelodau ymroddedig y PCRh (y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol) a'r Grwpiau Cynllunio Lleol wedi parhau i gefnogi'r Timau Lleol i wella safonau'r gwasanaethau a ariennir gan y RhCP (y Rhaglen Cefnogi Pobl) ar draws y rhanbarth, a gwnaed hynny trwy fonitro gofalus a thrwy ad-drefnu ac ail-gomisiynu lle bo'n addas.

Mae'r cynnydd tuag at gomisiynu darpariaeth hostel ranbarthol newydd ar gyfer Cwm Taf wedi hen ddechrau gyda cham cyntaf y ddarpariaeth gyfredol wedi'i gwblhau, a'r ail gam i gomisiynu gwasanaeth newydd ar fin dechrau. Bydd y gwasanaeth newydd hwn yn darparu ar gyfer anghenion cymhleth ein defnyddwyr gwasanaeth, gan ddarparu amgylchedd seicolegol gwybodus wrth iddynt gychwyn ar eu taith i fyw'n annibynnol. Rydym hefyd yn falch iawn fod y Cynllun Cymorth Cartrefu cyntaf a gomisiynwyd yn rhanbarthol ar gyfer pobl â demensia wedi'i lansio'n ddiweddar (Ebrill 2019) a'i fod yn darparu cefnogaeth y mae mawr ei hangen ar bobl fregus y rhanbarth.

Mae'n braf gweld hefyd, fel yn y blynyddoedd blaenorol, fod y dasg o ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth wedi'i gynnal ar sail ranbarthol, yn ogystal ag o fewn gwasanaethau a darpariaethau. Mae hynny wedi dwyn ynghyd ein harbenigwyr profiadol o Rondda Cynon Taf a Merthyr Tudful i rannu'u straeon gyda ni a'n helpu i wella gwasanaethau ar gyfer y dyfodol. Rydym yn hyderus y bydd yr Awdurdodau Lleol yn parhau i weithio ar y cyd er budd pobl fregus, nid yn unig o fewn y Rhaglen Cefnogi Pobl, ond gyda holl ffrydiau cyllido'r Grantiau Cymorth i Blant, Cymunedau a Chartrefu, fel y gwnaethant dros y deuddeg mis diwethaf.

Bu'n galonddid gweld bod y PCRh, yn ystod cyfnod o ansicrwydd ar gyfer y Rhaglen Cefnogi Pobl, wedi parhau i fod yn ymrwymedig i'w llwyddiant o fewn Cwm Taf, ac wedi canolbwyntio ar sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion ein Defnyddwyr Gwasanaeth trwy ymgynghori ac ymgysylltu.

Rydym yn edrych ymlaen at weld yr hyn y gellir ei gyflawni dros y 12 mis nesaf ac yn croesawu'r cyfle i weithio gyda chydweithwyr o Ben-y-bont ar Ogwr a ymunodd yn ffurfiol â'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol ar 1 Ebrill 2019, ac edrychwn ymlaen hefyd at lwyddiant parhaus y Rhaglen o fewn Cwm Taf Morgannwg.



(o'r chwith i'r dde) y Cyngorwyr David Hughes a Geraint Thomas (Cadeiryddion Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Cwm Taf)

2. Rhagarweiniad

Lleolir Cwm Taf yn Ne-ddwyrain Cymru ac mae'n cynnwys ardaloedd Awdurdodau Lleol Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf. Cwm Taf yw'r lleiaf o'r ardaloedd cydweithredol ac mae'n cynnwys oddeutu 9.6 y cant o gyfanswm poblogaeth Cymru ac oddeutu 293,000 o drigolion. Cwm Taf yw'r ardal fwyaf difreintiedig yng Nghymru (gan ddefnyddio safon mesur ardal sy'n seiliedig ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru).



Mae gan bob ardal bwyllgor cydweithredol sy'n adrodd yn ôl i Fwrdd Cyngori Cenedlaethol Cefnogi Pobl, sydd, yn ei dro yn cynghori'r gweinidog ar benderfyniadau sy'n ymwneud â'r Rhaglen Cefnogi Pobl. Mae Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Cwm Taf yn cynnwys ymarferwyr tai a digartrefedd proffesiynol, cynrychiolwyr o'r sector statudol, awdurdodau lleol, aelodau etholedig a darparwyr cymorth sy'n ymwneud â chartrefu yn y rhanbarth. Mae PCRh Cwm Taf yn manteisio ar aelodaeth hyddysg, ymroddedig ac angerddol y Pwyllgor ac mae pob aelod yn ymroddedig i wella'r gwasanaethau sy'n ymwneud â chymorth i gartrefu'r aelodau mwyaf bregus o'n cymunedau. Mae'r Adolygiad Blynnyddol canlynol yn amlinellu'r cynnydd a wnaethpwyd yn y rhanbarth rhwng Ebrill 2018 a Mawrth 2019.

Yn ystod 2018/19, mae'r PCRh wedi symud ymlaen i ddatganoli'r ddarpariaeth hosteli'n rhanbarthol yng Nghwm Taf. Cytunwyd ar gynllun dau gam manwl gan y PCRh a'r Grwpiau Cynllunio Lleol, gyda cham cyntaf y gwaith wedi'i gwblhau, a bydd gwaith yn cychwyn ar yr ail gam yn fuan. Bydd y ddarpariaeth hostel ranbarthol newydd ar gyfer Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf yn cael ei lansio ym mis Ebrill 2020 (gweler Astudiaeth Achos 1). Datblygwyd cynllun rhanbarthol newydd sy'n darparu cymorth i gartrefu pobl â demensia yn

ystod y cyfnod adrodd hwn ac fe lansiwyd y gwasanaeth ym mis Ebrill 2019 (gweler Astudiaeth Achos 2).

Yn ystod y cyfnod adrodd 2018-2019, mae'r PCRh wedi croesawu cydweithwyr o Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, sydd wedi symud o Fae'r Gorllewin i fod yn rhan o Gwm Taf, gan greu rhanbarth newydd sef Cwm Taf Morgannwg.

Bydd y PCRh yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ynghylch y trefniadau cyllido newydd ar gyfer y Rhaglen Cefnogi Pobl fel rhan o'r Grant Cymorth Tai. Byddwn yn parhau i weithio ochr yn ochr â'n cydweithwyr o'r Grant Plant a Chymunedau, gan sicrhau ein bod yn ategu'r gwaith presennol, yn lleihau dyblygu ac yn gweithio'n hyblyg i ddarparu gwasanaethau hanfodol i'n cymunedau.

3. Astudiaethau Achos

ASTUDIAETH ACHOS A:- Y rhanbarth yn comisiynu hostel newydd ar gyfer Cwm Taf

Y llynedd, nodwyd y gellid darparu hosteli yn well yn rhanbarthol, gan greu Amgylcheddau sy'n fwy Seicolegol Wybodus i'n defnyddwyr gwasanaeth mwyaf cymhleth a bregus wrth iddynt ddechrau ar eu taith i fyw'n annibynnol. Gwnaed llawer iawn o waith i wneud y ddarpariaeth gyfredol yn gydnaws ar gyfer ail gam y gwaith a fydd yn cynnwys comisiynu gwasanaeth newydd.

Ym mis Medi 2018, cymeradwyodd y PCRh benodiad Bruce Whitear a Hugh Irwin (ymgyngorwyr cartrefu), i gynorthwyo'r Timau Cefnogi Pobl i ddarparu hostel newydd ar gyfer y rhanbarth. Gwnaed gwaith cychwynnol i ymgysylltu â Rhanddeiliaid a Defnyddwyr Gwasanaeth er mwyn creu Datganiad o Fwriad, ac fe'i cymeradwywyd gan y PCRh a Grŵp Cynllunio Cefnogi Pobl (GCCP). Roedd y Datganiad o Fwriad yn cynnwys canfyddiadau sawl sesiwn ymgysylltu, astudiaeth achos ac adolygiad polisi o fewn y ddarpariaethau cyfredol, er mwyn llunio argymhellion i greu gwasanaeth newydd ar gyfer Cwm Taf mewn dau gam.

Cwblhawyd cam cyntaf y gwaith (sef mynd i'r afael ag argymhellion byrdymor yr adroddiad, gyda'r nod o wella'r gwasanaethau cyfredol a chysoni'r ddarpariaeth ar draws y rhanbarth wrth baratoi ar gyfer cam dau), yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Arweiniwyd y gwaith gan weithgor a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr y sefydliad sy'n cyflenwi'r ddarpariaeth hostel ar hyn o bryd (sef Adref), Arweinwyr a Swyddogion Tîm Cefnogi Pobl yr Awdurdod Lleol, y Cydlynnydd Datblygu Rhanbarthol, Cynrychiolwyr Cartrefu'r ALL a'r Ymgynghorwyr.

Crëwyd Cynllun Gwaith i fynd i'r afael â phroblemau a nodwyd yn ystod y cam ymchwil. Dyma rai ohonynt:-

- anghysondebau mewn polisi/gweithdrefn rhwng y 4 hostel ar draws 2 ardal yr ALL;
- y defnydd o anadlennydd wrth fynedfa'r ddarpariaeth;
- "hysbysiadau ymadael" sy'n arwain at droi allan;
- argaeledd hyfforddiant i dimau staff a gweithrediad yr Amgylchedd Seicolegol Gwybodus i gefnogi defnyddwyr gwasanaeth;

- argaeledd ac ystod o weithgareddau ystyrion o fewn y darpariaethau a chefnogaeth i adeiladu rhwydweithiau y tu allan i'r darpariaethau;
- cyfleoedd i Ddefnyddwyr Gwasanaeth adeiladu a chynnal perthnasoedd â ffrindiau a theulu tra eu bod yn byw mewn llety â chymorth 24 awr.

(Nid rhestr gyflawn a geir uchod ond enghreifftiau o broblemau yr aethpwyd i'r afael â nhw yn ystod y cam hwn o'r gwaith).

Cyfarfu'r grŵp yn fisol (yn amlach pan oedd angen) gan gwblhau camau i fynd i'r afael â'r argymhellion yn y Cynllun Gwaith. Gwnaed newidiadau i weithredu amgylchedd seicolegol oedd yn fwy gwybodus, cysoni polisiâu a gweithdrefnau ar draws y 4 hostel (gyda rhai gwyradau ar gyfer amgylchiadau penodol), dileu'r defnydd o anadlennydd wrth fynd i mewn (gan ddewis asesiad o ymddygiad yn lle hynny) a chyflwyno polisi cynhwysiant newydd (i ddisodli polisiâu gwahardd), gyda'r nod o roi pen ar achosion o droi allan. Mae'r newidiadau eraill a weithredwyd yn ymgorffori mwy o hyfforddiant i staff, gan gynnwys eu presenoldeb (lle bo modd) wrth gyflwyno hyfforddiant ar Amgylcheddau Seicolegol Gwybodus i staff cymorth a rheolwyr, ac adolygiad o'r gweithgareddau a gynigir ac a gefnogir mewn hosteli.

Mae Gweithgor Cam 2 bellach wedi'i sefydlu i gyflawni'r gwaith sy'n angenrheidiol i ddatgomisiynu'r ddarpariaeth gyfredol yn y pedair hostel ac i gomisiynu gwasanaeth newydd ar gyfer Cwm Taf a fydd yn diwallu anghenion defnyddwyr ag anghenion cymhleth a lluosog, gan roi'r sgiliau a'r gwytnwch iddynt fyw'n annibynnol ac yn ddiogel yn eu cartrefi'u hunain. Bydd Rhondda Cynon Taf yn arwain ar gaffael y gwasanaeth ar ran Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Cwm Taf.

ASTUDIAETH ACHOS B:- Gwasanaeth newydd sy'n cynnig cymorth i gartrefu pobl â demensia yng Nghwm Taf

Daeth cynnig i law'r Grŵp Cynllunio Cefnogi Pobl (GCCP) ym Merthyr Tudful i roi cymorth i gartrefu pobl sydd wedi cael (neu wrthi'n cael) diagnosis o ddemensia, ac fe gadwyd y cynnig hwn ar y gofrestr o brosiectau fel ei fod yn barod i'w gomisiynu pe bai arian yn caniatáu. Yn flaenorol, yn ystod Diwrnod Datblygu PCRh, cafodd y galw am gefnogaeth i bobl sy'n byw â demensia ei nodi fel un oedd yn cynyddu mewn amlygrwydd. Roedd y cynllun eisoes yn darparu gwasanaethau i bobl â demensia yn Rhondda Cynon Taf, ac yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol. Cytunodd GCCP Merthyr Tudful fod hwn yn faes cymorth arbenigol yr hoffent ei gynnig ym Merthyr Tudful, ac y byddai croeso i'w gyflawni ar sail ranbarthol.

Yng nghyfarfod mis Ionawr o'r Grŵp Cynllunio, nodwyd tanwariant ar gynlluniau a chronfeydd eraill wrth i gynllun a gynigiai cymorth "fel y bo'r angen" gael ei ddatgomisiynu, a chytunodd yr aelodau i fwrw ymlaen â'r cynnig i gartrefu'r rhai â demensia. Cytunodd GCCP Rhondda Cynon Taf y gallai'r cynllun hwn gael ei gyflawni'n fwy effeithlon yn rhanbarthol, a dechreuodd y gwaith o derfynu'r contract cyfredol gyda Gofal ac Atgyweirio fel y gellid bwrw ymlaen i gomisiynu cynllun cymorth rhanbarthol newydd i gartrefu pobl sy'n byw â demensia yng Nghwm Taf.

Ym mis Ionawr 2019, arweiniodd CBS Merthyr Tudful y dasg o gomisiynu Cynllun Demensia Rhanbarthol ar gyfer Cwm Taf gyda'r nod o roi cymorth i gartrefu pobl a ddiagnosiodd â demensia. Dechreuodd y cynllun ar 1 Ebrill 2019 ar gost flynyddol o £45,605.04 (Rhondda Cynon Taf = £33,961.20 a Merthyr Tudful = £11,643.84) ac mae'r adborth cychwynnol wedi bod yn gadarnhaol iawn.

Mae'r gwasanaeth yn darparu cefnogaeth i gartrefu pobl â demensia fel y gallant fyw ag urddas a pharch yn eu lletyau a'u cymunedau eu hunain.

Mae'r ymyrraeth hon yn ymwneud â chartrefu ac yn canolbwyntio ar ddatblygu neu gynnal gallu unigolion i fyw yn eu llety eu hun gan gynyddu'u hannibyniaeth, cyfranogiad, dewis a rheolaeth mewn lle sy'n ddiogel ac yn ymarferol iddynt wneud hynny. Lle bo angen, bydd angen i'r cynllun weithio ar y cyd â gwasanaethau eraill, megis y Cydlynwyr Cymunedol (a ariennir trwy'r Gronfa Gofal Integredig – sef yr ICF) i gael mynediad at gymorth trydydd sector a sicrhau bod anghenion pobl yn cael eu diwallu'n ddiogel ac yn briodol. Mae'r canlynol yn nodweddiadol o'r gefnogaeth a roddir:

- adolygu'r hawl i fudd-daliadau a threfniadau cyfleustodau cyfredol;
- gosod targedau mewn perthynas ag annibyniaeth sy'n benodol, mesuradwy, cyraeddadwy, realistig ac wedi'i gyfyngu gan amser;
- sicrhau cytundeb ynghylch deilliannau'r defnyddwyr gwasanaeth fel y gellir mesur ac adrodd ar agweddau ansoddol y gwasanaeth;
- darparu cofnod cyson o gyswllt ac ymglymiad i sicrhau bod yr holl ddefnyddwyr gwasanaeth yn cael eu trin yn deg;
- sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn ymwybodol o delerau ac amodau unrhyw gefnogaeth ac o'i lleihad a therfyniad.

Bydd y gwasanaeth yn darparu 47 awr o gefnogaeth yr wythnos (35 ar gyfer RhCT a 12 ar gyfer Merthyr Tudful) i oddeutu 150 o bobl trwy gydol 2019/20. Darperir y gwasanaeth trwy ymyriadau unigol neu luosog sy'n ymateb yn hyblyg i anghenion yr unigolyn. Ym mis Mai 2019, fis ar ôl ei lansio, mae'r cynllun yn cefnogi 53 o unigolion ledled y rhanbarth ac mae'r adborth anffurfiol cychwynnol yn gadarnhaol. Caiff y cynllun ei fonitro'n rheolaidd ar y cyd gan Dimau Cefnogi Pobl y ddau Awdurdod Lleol.

4. Y modd y caiff pobl sy'n cyrchu gwasanaethau eu cynnwys

Yn 2014, cynhyrchodd PCRh Cwm Taf Fframwaith Defnyddwyr Gwasanaeth sydd ar gael i'r cyhoedd a gellir ei weld yn: - <https://www.merthyr.gov.uk/media/3287/service-user-framework-eng.pdf>

Yn unol â'r fframwaith hwn ac ar ran y PCRh, cymerodd y Cydlynnydd Datblygu Rhanbarthol rôl arweiniol mewn digwyddiad rhanbarthol i ymgynghori â defnyddwyr gwasanaeth. O ganlyniad i awgrym a wnaed yn y Fforwm Darparwyr Rhanbarthol, cafodd y digwyddiad i Ymgysylltu â Defnyddwyr Gwasanaeth ei hwyluso eleni gan fyfyrwyr y Gwyddorau Cymdeithasol o Brifysgol De Cymru. Nod y trydydd parti hwn oedd annog y defnyddwyr gwasanaeth i gynnig beirniadaeth

adeiladol fel y gellid cynorthwyo'r dasg o wella gwasanaethau. Roedd y digwyddiad yn cynnig sesiynau ymgysylltu â grwpiau ffocws gan gynnwys defnyddwyr gwasanaeth mewn lletyau sefydlog a defnyddwyr gwasanaeth oedd yn derbyn cymorth fel y bo'r angen.

Cynhaliwyd y digwyddiad ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth rhanbarthol ar 4 Mawrth 2019 yng Nghanolfan Orbit, Merthyr Tudful. Roedd adborth y defnyddwyr gwasanaeth yn dda iawn. Roedd y PCRh yn falch o weld bod y Rhaglen Cefnogi Pobl wedi cael effaith gadarnhaol ar fywydau'r rhai a gafodd gefnogaeth. Mynegodd y rhai a oedd â disgwyliadau uchel o'r gwasanaeth ymlaen llaw fod y gefnogaeth a gawsant wedi cwrdd neu ragori ar y disgwyliadau hynny. Mynegodd y defnyddwyr gwasanaeth a fynychodd y digwyddiad fod ansawdd eu bywydau wedi codi o ganlyniad i gefnogaeth a ariannwyd gan y Rhaglen Cefnogi Pobl. Dyma rai sylwadau a dderbyniwyd am y gwasanaeth: "Rwy'n hapus iawn â'r gefnogaeth a gefais i – rwy'i wedi symud ymlaen yn bell iawn", "Newidiodd fy mywyd yn aruthrol, nid wy'n adnabod fy hun!" ac "Rwy'n teimlo'n llawer mwy diogel nawr". Y cwestiwn olaf a ofynnwyd i'r defnyddwyr gwasanaeth oedd "Ble fydddech chi petaech chi heb dderbyn cymorth y Rhaglen Cefnogi Pobl?" Dyma rai atebion i'r cwestiwn hwn: "Byddai fy nyledion wedi gwaethygu a byddwn i wedi cael fy nhroi allan yn y pen draw", "Hunanladdol", "Wedi marw", "Mewn mynwent", "Mewn carchar", a "Byw mewn perthynas gamdriniol". Mae'n amlwg fod y Rhaglen Cefnogi Pobl yng Nghwm Taf yn gweithio'n dda i wella ansawdd bywyd defnyddwyr gwasanaeth a oedd mewn amryw o amgylchiadau negyddol cyn derbyn cefnogaeth. Gweler [Atodiad A](#) am fanylion pellach ynghylch y digwyddiad ymgysylltu.

Cynhaliodd y rhai sy'n darparu gwasanaethau Cefnogi Pobl eu gweithgareddau ymgysylltu eu hunain trwy gydol y flwyddyn fel rhan o'u harferion safonol.

Dyma rai o weithgareddau ymgysylltu parhaus y darparwyr gwasanaeth:-

- Cyfarfodydd tŷ
- Arolygon ymadael
- Arolygon boddhad
- Fforymau defnyddwyr gwasanaeth
- Grwpiau sy'n ffocysu ar faterion penodol
- Gweithdrefnau cwyno cadarn
- Trafodaethau anffurfiol rhwng defnyddwyr gwasanaeth a gweithwyr cymorth
- Blychau awgrymiadau
- Ffurflenni adolygu 3 mis
- Mae defnyddwyr gwasanaeth yn ymddiriedolwyr ar fyrdau rheoli rhai o sefydliadau'r darparwyr
- Cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- Polisi drws agored lle mae gan ddefnyddwyr gwasanaeth fynediad at staff
- Mae defnyddwyr gwasanaeth yn cymryd rhan wrth recriwtio staff
- Mae'r CCB yn agored i ddefnyddwyr gwasanaeth ei fynychu

Wrth symud ymlaen, bydd yr Ymgysylltiad Rhanbarthol yn anelu at ymgynghori â chanran o'r canlynol: y rhai na wnaeth dderbyn y rhaglen er iddynt gael eu cyfeirio ati, y rhai na chafodd mo'u derbyn am gefnogaeth, a'r rhai a gafodd eu cyfeirio at ddarparwr i ddechrau ond a fethodd ymgysylltu â'r rhaglen gan arwain at derfyniad y gefnogaeth.

5. Datblygiadau'r Gwasanaeth

Sut cafodd penderfyniadau eu llywio gan gynlluniau gwariant, dadansoddiadau angen, deilliannau a ffynonellau eraill o ddata? Pa newidiadau a gafwyd yn sgil hynny?

Merthyr Tudful

Trwy gydol 2018/19, mae'r Tîm Cefnogi Pobl wedi diwygio'r prosesau monitro i sicrhau y gellir defnyddio data fel gwybodaeth, nid yn unig i ddangos effaith y prosiect ond ei werth am arian hefyd. Archwiliwyd ymhellach y cyfleoedd i wella'n barhaus trwy gywain adborth y defnyddwyr gwasanaeth ac ymgynghori â nhw. Rydym hefyd wedi gweithredu Polisi Priso'r Cyfrifydd Costau (a seiliwyd ar fodel Casnewydd) i sicrhau ein bod yn cael costau uned teg a chyson ar gyfer y gwasanaethau a gomisiynir, a'n bod yn mynd i'r afael â gwahaniaethau mawr yng nghostau gwasanaethau tebyg.

Rydym wedi defnyddio'r data anghenion i lywio meysydd blaenoriaeth ochr yn ochr â'n Strategaeth a'n Cynllun Gweithredu ar Ddigartrefedd fel ein bod yn cydweithio i sicrhau'r deilliannau cadarnhaol gorau i'r rheini sy'n cyrchu gwasanaethau cartrefu a chymorth.

Ar sail asesiadau'r Rhaglen Cefnogi Pobl a'r Data ar Gartrefu, nodwyd bod ein gwasanaethau presennol yn diwallu llw o anghenion. Er hynny, mae yna garfan o bobl sy'n cysgu allan ac oedolion ag anghenion cymhleth yn chwyldroi o fewn y gwasanaethau hyn. Yn aml, maen nhw i mewn ac allan o'r carchar ac er eu bod yn destun asesiadau digartrefedd mynych gyda gwasanaethau cymorth ar gael iddynt, prin yw'r ymgysylltiad a'r llwyddiant. Ar sail hyn, gwnaethom ddatblygu'r fenter Tai yn Gyntaf gan fanteisio ar yr hyn a ddysgwyd o'r prosiectau llwyddiannus yng Nghaerdydd. Oherwydd dwyster a hyblygrwydd y gefnogaeth sy'n ofynnol a chost yr unedau, nid oeddem yn gallu ariannu'r prosiect trwy Gronfa Cefnogi Pobl/Atal Digartrefedd yn unig, ond buom yn llwyddiannus yn ein cais i Gronfa Tai yn Gyntaf Llywodraeth Cymru. Dechreuodd prosiect arloesol Tai yn Gyntaf ym mis Tachwedd a rhoddwyd pwyslais trwm ar gefnogaeth "pen blaen", ac ar ymgysylltu, adeiladu perthynas ac ymddiriedaeth, gyda'r gobaith o gael canlyniadau mwy cynaliadwy a chadarnhaol i'r rhai nad oeddent yn gallu symud yn llwyddiannus trwy ein modelau gwasanaeth traddodiadol.

Trwy ddadansoddi ein data anghenion ac adolygiadau strategol, gwnaethom hefyd ddod i benderfyniad cytûn ag un o'n darparwyr i ddatgomisiynu'r gwasanaeth a gynigiai cymorth fel y bo'r angen i bobl hyn, oherwydd y diffyg galw a'r anallu i gyflawni'r contract yn effeithiol. Yn sgil hynny, ym mis Hydref 2018, trosglwyddwyd unrhyw ddefnyddwyr gwasanaeth dan sylw i ddarparwyr cymorth priodol eraill.

Yn dilyn ymgynghoriad ac adolygiad strategol o ddarparwr arall a gomisiynwyd i gynnig cymorth fel y bo'r angen i bobl hyn, nodwyd bod yna alw ehangach i ddarparu cynllun o'r fath ar gyfer pob oedran yn hytrach na'r rhai 50+ oed yn unig, ac roedd yna alw hefyd i ail-lunio'r gwasanaeth fel ei fod yn diwallu anghenion lleol yn well.

Wrth adolygu'r data anghenion, fe wnaethon ni ail-gomisiynu'r cymorth a gynigir i'n pobl ifanc fel y bo'r angen. At hynny, wrth weithredu'r Cyfrifydd Costau, llwyddwyd i gomisiynu gwasanaeth bron yn union yr un fath am lai na hanner cost y contract blaenorol ac mae'r darparwr presennol a gomisiynwyd trwy'r Rhaglen Cefnogi Pobl yn meddu ar hanes profedig o gyflawni'r canlyniadau cadarnhaol gorau posibl i bobl ifanc.

Y llynedd, fe wnaethon ni hefyd fuddsoddi mewn Gweithiwr Anghenion Cymhleth ar gyfer y rheini â phroblemau iechyd meddwl oedd angen eu cartrefu. Gwnaed hyn yn sgil data a ddangosai fod anghenion ar gynnydd, yn ogystal â thystiolaeth fod anghenion heb eu diwallu a bod y darparwyr presennol dan bwysau i sicrhau cefnogaeth wych i garfan gynyddol o bobl. Oherwydd cyfyngiadau o ran amser a chyllideb, doedd dim modd inni gychwyn y prosiect tan Ebrill 2019 ond cwblhawyd y broses dendro yn chwarter 4 y flwyddyn 2018.

Trwy ad-drefnu, bu modd inni gynyddu unedau i gwrdd ag anghenion nad oedd yn cael eu diwallu mewn rhai cynlluniau; fodd bynnag, ni aethpwyd i'r afael ag anghenion eraill oherwydd bod cyllid yn brin neu ddim ar gael, h.y. problemau'n ymwneud â hunan-esgeulustod/celcio, oedolion sydd angen cymorth i gymodi, ynghyd â'r angen am gynllun capasiti newydd/cynyddol i gefnogi'r rheini ag anghenion cymhleth/iechyd meddwl.

Rydym wedi parhau i archwilio cyfleoedd i gynnal prosiectau a gyd-gomisiynir ar raddfa leol gyda grantiau eraill o fewn trefniant ariannu hyblyg. Rydym wedi comisiynu prosiect "Materion Ariannol" ar y cyd â Chyngor ar Bopeth, a thrwy weithio â chydweithwyr a phartneriaid, rydym yn parhau i sicrhau bod rhaglenni'n ategu ei gilydd, bod llai o wasanaethau'n dyblygu'i gilydd a bod effeithlonrwydd ar gynnydd lle bynnag y bo modd.

Rhondda Cynon Taf

Yn dilyn yr adolygiad o'n gwasanaethau presennol sy'n cynnig cymorth fel y bo'r angen, llwyddwyd i gomisiynu cefnogaeth newydd o'r fath yn seiliedig ar ardal, ac fe'i lanswyd ar 1 Ebrill 2019 trwy'r broses gaffael gan ddatgomisiynu'r darparwyr presennol.

Trwy gydol 2018, mae'r Tîm Cefnogi Pobl wedi parhau i adolygu'r Gwasanaethau Cefnogi Pobl mewn modd strategol gan ddadansoddi'r data ar y galw a'r anghenion ynghyd â'r data ar ddeilliannau.

Oherwydd bod nifer uchel o atgyfeiriadau MAPPA (Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd) yn cynnwys troseddwyr risg-uchel, fe wnaethon ni gomisiynu'r Gwasanaeth Cymorth Arbenigol i ddelio â'r troseddwyr MAPPA hynny yn ogystal â'r garfan WISDOM sy'n peri risg uchel iawn o niwed difrifol. Modelwyd y cymorth hwn ar ddulliau hyblyg Tai yn Gyntaf, sy'n canolbwyntio ar unigolion ag euogfarnau troseddol uchel ac anghenion cymhleth.

Yn sgil yr adolygiad strategol o Wasanaethau Pobl Ifanc, amlygwyd y ffaith nad oedd y galw na'r cyflenwad yn addas ar gyfer llety â chymorth 24 awr. Fodd bynnag, trwy fonitro'r atgyfeiriadau am lety i bobl ifanc, prin oedd y galw am lety â chymorth lefel-isel ynghyd â'r galw am letyau â chymorth 24/7 a gynigir gan brosiectau presennol fel Tŷ Rhondda a'r Hen Fecws. At hynny, cafwyd cwmp dramatig yn y galw am wasanaethau a gynigiai cymorth i bobl ifanc fel y bo'r angen.

Felly, boom yn gweithio gyda darparwyr a chyflwyno'r data i'r Grŵp Cynllunio Cefnogi Pobl yn Rhondda Cynon Taf er mwyn ystyried ad-drefnu gwasanaethau pobl ifanc i ddiwallu'u hanghenion newidiol a chyfredol.

Yn unol â chytundeb GCCP RhCT, cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd â'r darparwyr i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu trosglwyddo'n llyfn er mwyn hyrwyddo'r dasg o ad-drefnu'r ddarpariaeth bresennol fel ei bod yn cynnig llety â chymorth 24 awr i bobl ifanc a phobl sy'n gadael gofal. Bydd y cyfnod pontio yn gweld 3 uned ychwanegol yn cynnig llety â chymorth 24 awr ym mis Rhagfyr 2018 a 3 uned ychwanegol arall o fis Ebrill 2019.

Mae'n her ariannol buddsoddi mewn prosiectau newydd er gwaethaf yr angen mawr amdanynt. Yn 2018, fel rhan o'i Adolygiad Gwasanaeth, cymeradwyodd GCCP y dylid datgomisiynu unedau sy'n cynnig cymorth i bobl ifanc fel y bo'r angen, mewn ymateb i alw isel. Bellach, mae'r arbedion effeithlonrwydd yn ariannu lefel uwch o letyau â chymorth i bobl ifanc a phobl sy'n gadael gofal yn ardal Pontypridd a'r Rhondda. Roedd y data a gyflwynwyd yn dystiolaeth o'r newid a fu yn y galw a bod angen inni ad-drefnu'r gwasanaethau presennol i ateb y galw hwnnw. Hefyd, fe sicrhawyd y Grŵp Cynllunio, petai'r angen i gefnogi pobl ifanc yn cynyddu yn y dyfodol, y byddai hyblygrwydd y gwasanaeth newydd yn gallu ymdopi â'r galw am gymorth i'r rhai ag anghenion lluosog/cymhleth. Buom hefyd yn gweithio'n agos i sicrhau bod rhai cleientiaid yn trosglwyddo'n llyfn o brosiectau lefel uwch i lefel is.

Mae ad-drefnu gwasanaethau i bobl ifanc ddigartref yn RhCT wedi lleihau'r rhestr/ amseroedd aros a hefyd wedi galluogi inni gynnig lefel uwch o gefnogaeth i ateb y galw cyfredol am letyau â chymorth i bobl ifanc.

Pa waith Rhanbarthol ac Isranbarthol (ar gyfer Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol â mwy na 2 awdurdod lleol) sy'n cael ei gomisiynu a sut mae gwasanaethau wedi gwella ers Adroddiad yr Adolygiad Blynyddol diwethaf?

Dros y flwyddyn a aeth heibio, gwnaed llawer o waith i gomisiynu gwasanaethau yn rhanbarthol lle bo'n briodol i wneud hynny. Mae cam cyntaf y gwaith i ranbartholi lletyau brys yng Nghwm Taf wedi'i gwblhau gyda cham 2 yn dechrau ym mis Mai 2019 (gweler Astudiaeth Achos 1). Yn sgil cwblhau'r gwaith hwn, bu gwelliant mawr yn y gefnogaeth a roir i bobl sy'n cyrchu darpariaeth hostel. Mae hyn yn cynnwys rhoi ystyriaeth ofalus o anghenion y defnyddwyr gwasanaeth sy'n wynebu rhwystrau lluosog a chymhleth i fyw'n annibynnol. Mae hyn wedi arwain at ddileu'r defnydd o anadlenyddion a hysbysiadau ymadael (oni bai mewn amgylchiadau eithriadol lle mae diogelwch y defnyddwyr gwasanaeth a/neu staff mewn perygl).

Mae'r gwasanaeth cyntaf a gomisiynwyd ar sail gwbl ranbarthol wedi'i lansio ar gyfer Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful, a dechreuodd ddarparu cefnogaeth i gartrefu pobl sy'n byw â demensia ar 1 Ebrill 2019 (gweler Astudiaeth Achos 2). Bellach, mae gan bobl sydd ag angen cymorth cartrefu yn sgil eu diagnosis o ddemensia wasanaeth arbenigol a all, nid yn unig roi cefnogaeth a chyngor uniongyrchol, ond hefyd roi defnyddwyr gwasanaeth mewn cysylltiad â sefydliadau trydydd sector sy'n cynnig gweithgareddau neu gefnogaeth a allai wella'u llesiant meddyliol, corfforol ac emosiynol ehangach.

Mae gan Ferthyr a Rhondda Cynon Taf gynrychiolaeth ar Grŵp Llywio VAWDASV Cwm Taf er mwyn helpu i gyflawni'r blaenoriaethau a nodir yng Nghynllun Gweithredu VAWDASV. Un o'r blaenoriaethau a amlygwyd yw comisiynu Model Gwasanaeth Rhanbarthol ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig. Mae Gweithgor hefyd wedi'i sefydlu ar gyfer De Cymru i archwilio'r dasg o ddatblygu hosteli i ddynion yn rhanbarthol ac mae'r ddau ALI yn cymryd rhan ynddo. Mae adolygiad strategol o wasanaethau cam-drin domestig yn RhCT wedi cadarnhau bod yna ddiffyg cymorth i gartrefu dioddefwyr gwryw. Mae'r GCCPiau yn archwilio argymhellion i weithredu a threalu gwasanaeth sy'n cynnig cymorth fel y bo'r angen i ddynion sy'n dioddef camdriniaeth ddomestig.

Llwyddodd Cynghorau Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful i gael cyllid o dan raglen arloesol Tai yn Gyntaf Llywodraeth Cymru 2018/19 er mwyn datblygu gwasanaeth allgymorth pendant i unigolion ag anghenion cymhleth. Pwrpas y cyllid yw galluogi derbynwyr grantiau i gyflawni prosiect Tai yn Gyntaf a fydd nid yn unig yn cael effaith uniongyrchol ar fywydau'r rhai sy'n cysgu allan yn y gymuned, ond hefyd yn darparu sylfaen i lywio'r penderfyniadau a wneir yn lleol ac yn genedlaethol wrth gomisiynu i'r dyfodol. Mae'n hanfodol bod Tai yn Gyntaf yn cael ei ddefnyddio'n llawn i gefnogi'r unigolion mwyaf cymhleth yn ein cymunedau er mwyn torri'r cylch digartrefedd a chysgu ar y stryd. Mae'r cynlluniau'n cael eu comisiynu'n unigol gan yr Awdurdodau Lleol gyda Gwalia yn darparu'r cynllun yn RhCT a Byddin yr Iachawdwriaeth yn ei ddarparu ym Merthyr Tudful. Mae'r cynlluniau yn amrywio o ran y cleientiaid a dargedir ac o ran y ffyrdd y cânt eu darparu, ond mae Gweithgor wedi'i sefydlu i hwyluso'r dasg o rannu gwybodaeth a chefnogaeth rhyngddynt. Mae cydweithwyr o Awdurdod Lleol Pen-y-bont ar Ogwr yn cyflwyno Cynllun Tai yn Gyntaf a ariennir gan y Rhaglen Cefnogi Pobl, ac mae hefyd yn ymwneud â'r grŵp hwn er mwyn rhannu arferion gorau a chefnogaeth mor eang â phosibl. Wrth gydnabod y nifer cynyddol o bobl ddigartref sengl â chefnidir troseddol sy'n dod i gysylltiad â'r System Cyfiawnder Troseddol ac yn gwneud ceisiadau i'w cartrefu dro ar ôl tro, sicrhawyd cyllid pellach gan Lywodraeth Cymru i ymgymryd â Phrosiectau Tai yn Gyntaf ychwanegol yn RhCT a Merthyr Tudful yn ystod 19/20.

Sut gallwch chi arddangos fod ymyriad cynt a dull ataliol tuag at ddigartrefedd yn cael eu darparu? Sut yr ymdrinnir â hyn ar sail ranbarthol?

Merthyr Tudful

Yn ystod y llynedd, fe ail-leolwyd y Tîm Cefnogi Pobl ym Merthyr i'r Swyddfa Gwasanaethau Tai a Digartrefedd ac ers i'r cydleoeli ddechrau, mae'r ddau Dîm wedi gweithio'n agosach nag erioed trwy rannu data ac adnoddau gan gynnwys system porth (Civica) er mwyn defnyddio gwybodaeth i lywio comisiynau effeithiol fel y gellir mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth, anghenion nas diwallwyd a'r gofynion sy'n wynebu'r gwasanaethau.

Trwy'r Grant Atal Digartrefedd, ariannwyd rôl **Ymyrryd ac Atal Cynnar** i gydlynu gwaith ataliol yn gynharach o lawer. Bydd deiliad y rôl hefyd yn cysylltu â darparwyr addysg, adrannau'r sector cyhoeddus, landlordiaid y trydydd sector a phreifat, i godi ymwybyddiaeth, chwalu chwedlau, ac yn gyffredinol arfogi pobl yn well i wneud dewisiadau bywyd cadarnhaol ac i ddeall y sefyllfa a'r heriau cyfredol sy'n wynebu'r maes cartrefu. Hefyd, un o amcanion y rôl hon yw hyrwyddo a marchnata'r gwasanaethau allweddol sydd ar gael, annog

ymgysylltiad cynnar â nhw, gwella'r defnydd o farchnad rhentu'r sector preifat trwy ymgysylltu'n effeithiol â landlordiaid, ynghyd â chynnig rhywfaint o gymorth gyda rhent ymlaen llaw a bondiau ac ati, a fyddai'n rhwystr clir i nifer o'n defnyddwyr gwasanaeth wrth chwilio am lety.

Hefyd, comisiynodd y Rhaglenni Cefnogi Pobl a Theuluoedd yn Gyntaf brosiect **Cyngor ar Arian** a gyflwynwyd gan Gyngor ar Bopeth, a bwriedir mireinio hyn ymhellach y flwyddyn nesaf er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf a chydweithio i leihau dyblygiad a chynyddu effeithlonrwydd lle bo modd. Mae hyn yn cyd-fynd â'r diwygiadau presennol i'r system fudd-daliadau, ac yn ategu un o brosiectau'r Credyd Cynhwysol a gomisiynwyd yn ddiweddar i gynnig cyngor a chefnogaeth gyda'r nod o wella llythrennedd ariannol a galluogi pobl i reoli'u harian ac osgoi argyfwng posibl yn y dyfodol.

Trwy weithio mewn partneriaeth â chydweithwyr yn Rhondda Cynon Taf, cawsom wybodaeth am y Prosiect Gwytnwch llwyddiannus a'r deilliannau a gyflawnir fel rhan o'r adolygiad ehangach ar ein darpariaeth hostel ranbarthol. At hynny, rydym yn bwriadu clustnodi cyllid y flwyddyn nesaf i fuddsoddi yn y gwasanaeth peilot hwn ar draws lletyau brys ym Merthyr er mwyn helpu i adeiladu gwytnwch ymhlith ein haelodau cymunedol mwyaf bregus, ac i wella a sicrhau'r deilliannau mwyaf cadarnhaol a chynaliadwy i'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaethau.

Rhondda Cynon Taf

Mae'r Tîm Cefnogi Pobl wedi meithrin perthnasoedd ac wedi gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill yn y sector statudol a gwirfoddol i sicrhau bod ystod o wasanaethau atal ac ymyrryd cynnar yn cael eu darparu i gynorthwyo'r agenda atal digartrefedd ac i gyd-fynd â'r gwasanaethau Cefnogi Pobl ar draws RhCT. Dyma rai o'r prosiectau a ariennir trwy Grant Atal Digartrefedd Llywodraeth Cymru sy'n ategu'r gwasanaethau a ariennir gan y Rhaglen Cefnogi Pobl:

Mae **Prosiect Gwytnwch** wedi'i dreialu i ddarparu cefnogaeth emosiynol a meithrin y gallu i ymdopi ag anghenion iechyd meddwl lefel-isel. Darperir y gwasanaeth hwn gan Mind Merthyr a'r Cymoedd ac fe'i cyflwynwyd i'n hosteli sy'n cynnig llety brys ac i ddau brosiect sy'n cefnogi tenantiaid ag anghenion cymhleth i wella'u gwytnwch trwy ymyriadau seico-addysg a llesiant. Sicrhawyd cyllid ychwanegol gan yr Oak Foundation er mwyn ehangu'r prosiect i bob llety a gefnogir gan y Rhaglen Cefnogi Pobl yn RhCT trwy gydol 2019.

Datblygodd y **Prosiect Ariannol** fel peilot gyda'r Biwro Cyngor ar Bopeth ym Mhontypridd ac mae'n cynnig cefnogaeth i gael y budd-daliadau mwyaf posib ynghyd â chymorth gydag apeliadau PIP a materion eraill sy'n ymwneud â'r maes. Gwneir atgyfeiriadau i'r gwasanaeth hwn gan y Tîm Datrysiadau Tai ac unigolion sy'n derbyn cymorth i'w cartrefu gan gyllid y Rhaglen Cefnogi Pobl. Oherwydd llwyddiant y peilot, cafodd y prosiect ei ymestyn yn 2019.

Yn ystod 2018, ariannwyd **Gweithiwr Anghenion Cymhleth** i gefnogi nifer o bobl ddigartref sengl sy'n meddu ar anghenion cymorth uchel a chymhleth, a gofynnir i rai ohonynt yn y pen draw adael lletyau â chymorth am fetu cydymffurfio â rheolau. Mae'r Gweithiwr Anghenion Cymhleth yn cynnig cymorth effeithiol i reoli a chefnogi unigolion sy'n gadael gwasanaethau, cyn datrys eu digartrefedd.

Prosiect newydd arall ar gyfer 2018 oedd y **Prosiect Pwylais**, sy'n darparu cyngor a chymorth i alluogi pobl ifanc osgoi digartrefedd ac aros yng nghartrefi'u teuluoedd neu eu cefnogi i ddychwelyd i amgylchedd eu cartrefi. Mae'r prosiect yn cynnig ymyriadau sy'n targedu cymorth yn gynnar, ac mae'n cynnwys help i addysgu a rhoi gwybodaeth a chyngor i'r ifanc, eu teuluoedd ac asiantaethau eraill ynghylch realiti digartrefedd ymhlith y to ifanc ac effeithiau'r diwygiadau i'r system les ac ati. Mae rôl y Gweithiwr Prosiect wedi'i lleoli gyda Gwasanaeth Teuluoedd Gwydn a Thîm Cefnogi Ymgysylltiad ag Addysg a Hyfforddiant (SEET) i ganfod, a chynnig cefnogaeth i bobl ifanc sydd mewn perygl penodol o fod yn ddirgaref yn y dyfodol.

Pa gysylltiadau sydd gan y PCRh â'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gwasanaethau Iechyd yn y rhanbarth? A gafwyd unrhyw gomisiynu gwasanaethau ar y cyd neu rannu adnoddau? Os do, rhwch fanylion am y prosiect(au).

Yn hanesyddol, mae PCRh Cwm Taf wedi meddu ar gysylltiadau da â'r adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol yn Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful. Mae uwch reolwyr o Wasanaethau Cymdeithasol y ddau Awdurdod Lleol hynny yn aelodau o'r PCRh ac yn cyfrannu at waith y Pwyllgor ac yn sicrhau bod ein gweithgareddau'n cyplysu â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol pan fo angen. Yn anffodus, yn ystod y misoedd diwethaf, mae'r PCRh wedi colli ei gynrychiolydd o'r Bwrdd Iechyd a fu'n aelod gweithgar iawn o'r Pwyllgor, gan annog llawer o ryngweithio rhwng y ddau gorff. Ar hyn o bryd, mae'r PCRh yn ceisio recriwtio cynrychiolydd o'r Bwrdd Iechyd newydd sef Cwm Taf Morgannwg, i sicrhau ein bod yn cadw perthynas agos â nhw.

Mae'r PCRh yn elwa o aelodaeth un o ymgynghorwyr Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n arbenigo ym maes iechyd y cyhoedd. Mae'n aelod hirsefydlog ac yn sicrhau bod gwaith y Pwyllgor yn ystyried anghenion iechyd ein rhanbarth wrth inni geisio atal digartrefedd, cynnig cymorth fel y bo'r angen, a darparu lletyau â chymorth.

Mae CBS Merthyr wedi comisiynu Contract Gofal Ychwanegol ar y cyd â'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae hefyd wedi ail-dendro ein Contract Lletyau â Chymorth ar y cyd â manylebau gwasanaeth unigol a chyd-gontractau cyffredinol trwy gydol 2018/19.

Prin yw'r cysylltiadau ag Iechyd mewn rhai meysydd ar hyn o bryd; mae hyn yn rhywbeth yr ydyn ni wedi'i godi gyda Llywodraeth Cymru trwy ein cyfarfodydd Tai yn Gyntaf fel darn posib o waith y dylid ei gyflawni ar raddfa ranbarthol neu genedlaethol. Bydd hyn yn flaenoriaeth dros y 12 mis nesaf.

Pa gysylltiadau sydd wedi'u gwneud â grwpiau strategol/cynllunio rhanbarthol eraill a pha waith cyd-gomisiynu sydd wedi'i wneud â phartneriaid/rhaglenni allweddol eraill?

Merthyr Tudful

Mae Gwasanaethau Cefnogi Pobl, Tai a Phlant wedi cyd-ddatblygu llwybrau llety i bobl ifanc sydd am gyrchu gwasanaethau a ddarperir ar sail statudol ac anstatudol, ac maen nhw hefyd yn gweithio gyda'i gilydd i fireinio strategaethau lleol eraill gan gynnwys Strategaeth Leoli CBSMT.

Trwy weithio mewn partneriaeth â'r Gwasanaethau Plant, Tai a Cefnogi Pobl, datblygwyd cais ar y cyd i'r Gronfa Arloesi leuenticid ar gyfer Prosiect Tai yn Gyntaf i Bobl Ifanc. Y nod yw cefnogi'r garfan o bobl ifanc sy'n meddu ar fywydau caotig ac anghenion lluosog a chymhleth, yn ogystal â'r rheini sy'n anaddas i'n modelau presennol neu sy'n cael eu hystyried yn risg rhy uchel.

Fel y soniwyd eisoes, rydym yn gweithio ar y cyd o fewn y trefniant ariannu hyblyg/Grant Plant a Chymunedau i chwilio am gyfleoedd i weithio a chomisiynu ar y cyd, ac ar hyn o bryd rydyn ni'n archwilio'r cyfleoedd o amgylch ein prosiectau sy'n ymwneud â rhoi cyngor ar arian/diwygio budd-daliadau.

Mae'r ddau gontract a gomisiynwyd ar y cyd â'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnwys y contract lletyau â Chymorth a chontractau Gofal Ychwanegol.

Rydym hefyd yn cael ein cynrychioli ar yr Is-grŵp Comisiynu sydd: yn archwilio ffyrdd o fapio gwasanaethau; yn ad-drefnu gwasanaethau lle bo modd i weithio'n fwy effeithlon; yn datblygu adnoddau i'r eithaf ar gyfer y nifer cynyddol o bobl sydd angen cefnogaeth y gwasanaethau rheng flaen; ac yn archwilio modelau a gwasanaethau comisiynu i'r dyfodol.

Rhondda Cynon Taf

Mae Tîm Cefnogi Pobl CBSRhCT, mewn partneriaeth â'r Gwasanaethau Plant a'r Tîm Datrysiadau Tai, wedi bod yn archwilio opsiynau amgen dros dro ar gyfer cartrefu pobl ifanc fregus 16-21 oed. Rydyn ni'n gweithio gyda landlord yn y sector rhentu preifat i ddod o hyd i eiddo fel y gellir ei ddefnyddio a'i gomisiynu i fod yn llety dros dro i bobl ifanc, er mwyn iddynt gael cartref amgen o safon uwch sydd hefyd yn cynnig gwelliant o ran diogelwch, gwerth am arian a deilliannau personol.

Mae cyllid wedi'i gymeradwyo gan LIC i gynorthwyo'r dasg o atal digartrefedd ymhlith pobl ifanc. Fel rhan o'r Cynllun Cyflenwi y cytunwyd arno, byddwn yn sefydlu Grŵp Llywio Amlasiantaethol i ddadansoddi data, nodi bylchau yn y data a gesglir, ad-drefnu mesurau deilliannau ar gyfer sefydliadau sy'n coladu data, gweithio gyda phobl ifanc ddigartref, ac atal digartrefedd ymhlith pobl ifanc. Bydd hyn o ddefnydd i'r Grŵp Llywio wrth ystyried datblygiadau i'r dyfodol neu ddod i benderfyniadau comisiynu mewn perthynas ag atal digartrefedd ymhlith yr ifanc.

Mae Tîm Cefnogi Pobl a Gofal Cymdeithasol i Oedolion RhCT wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth i edrych ar ffyrdd o gynorthwyo unigolion sy'n byw mewn Cynlluniau Anabledd Dysgu i fod yn fwy annibynnol yn eu llety â chymorth, neu eu helpu i symud i lety cam-i-lawr neu hyd yn oed fyw'n annibynnol. Mae hyn wedi cynnwys gweithio gyda'r Prosiect GRAMO (Paratoi a Symud Ymlaen) sy'n cynnig rhaglen denantiaeth a deilwrwyd i gynorthwyo unigolion a grwpiau mewn sesiynau a ddarperir ym mhob prosiect. Mae'r hyfforddiant hwn yn cynnig help i denantiaid sy'n brin o sgiliau i reoli'u tenantiaethau, ac i'r rhai sy'n symud i lety cam-i-lawr neu'r rhai sy'n symud i fyw'n annibynnol.

Rydym hefyd yn y broses o dreialu "proses banel" i gynorthwyo cleientiaid a gefnogir gan y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion, fel y gallant symud ymlaen o'u lletyau â chymorth neu ddarpariaeth cam-i-lawr a throsglwyddo i'w tenantiaethau eu hunain.

6. Grant Cymorth Tai

Dros y flwyddyn a aeth heibio, mae Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Cwm Taf wedi bachu ar y cyfle i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ynghylch y Grant Cymorth Tai newydd. Ar y dechrau, roedd gan y PCRh bryderon ynghylch gallu digartrefedd i barhau'n flaenoriaeth pe câi'r Grant Cefnogi Pobl ei gynnwys mewn Grant Ymyrryd ac Atal Cynnar fel yr awgrymwyd. Mynegodd aelodau'r PCRh eu pryderon i Lywodraeth Cymru trwy ymgynghoriad ffurfiol a thrwy'r Cydlynnydd Datblygiad Rhanbarthol ac Arweinwyr y Rhaglen Cefnogi Pobl mewn amryw o ddiwyddiadau a chyfarfodydd ymgysylltu. Roedd y PCRh yn falch o glywed penderfyniad y gweinidogion i gynnwys y Rhaglen Cefnogi Pobl o fewn Grant Cymorth Tai.

Mae'r PCRh yn croesawu swyddogion Llywodraeth Cymru i'w gyfarfodydd fel y gallant ei hysbysu am y cynnydd tuag at weithredu'r strwythur grantiau newydd, a bydd yn parhau i gymryd rhan weithredol yn y broses ymgysylltu ac ymgynghori bryd bynnag y ceir cyfle.

Yn ddiweddar, cyfarfu Prif Swyddogion y Rhaglen Cefnogi Pobl yn y rhanbarth â Llywodraeth Cymru ynghylch y fformiwla newydd bosibl ar gyfer cyfrifo dyraniadau'r Awdurdodau Lleol. Mae'r ddau Awdurdod Lleol yn awyddus i gael fformiwla newydd sy'n adlewyrchu'r angen am wasanaethau yn ein hardaloedd ac a fydd yn caniatáu inni fynd i'r afael ag anghenion cymhleth ein defnyddwyr gwasanaeth yn y presennol a'r dyfodol. Mae'r ddau Awdurdod Lleol wedi nodi cynlluniau newydd a fyddai'n gwella bywydau ein defnyddwyr gwasanaeth bregus, pe bai cynnydd yn y dyraniad yn caniatáu i'r rhain gael eu hariannu.

Yn ddiweddar, mae'r PCRh hefyd wedi gwneud rhywfaint o waith yn ymwneud ag ariannu cymorth cartrefu yn ein cynlluniau ar gyfer pobl ag anableddau dysgu, mewn ymateb i'r argymhelliad yn Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru (2017). Cyflwynwyd data yn ymwneud â'r gwariant cyfredol a'r unedau a ddarperir i bobl ag anawsterau dysgu/anableddau er sylw aelodau'r PCRh a bu modd iddynt ofyn cwestiynau i Swyddogion Arweiniol y Rhaglen Cefnogi Pobl mewn perthynas â'r gwahaniaethau cyllido ar draws yr ALL, a'r rhesymau amdanynt. Efallai y ceir adolygiad manylach ar y cymorth a roir i gartrefu pobl ag anableddau dysgu yn y dyfodol agos, gan ddibynnu ar ba benderfyniad a wneir ynghylch y trefniadau i gyllido'r ddarpariaeth ar gyfer anableddau dysgu o dan y Grant Cymorth Tai newydd. Mae gan aelodau'r PCRh farnau a phryderon amrywiol ynghylch y potensial i gynnwys cyllid cymorth cartrefu o fewn cynlluniau anableddau dysgu, neu ei dynnu oddi ar ddyraniadau grant y Rhaglen Cefnogi Pobl – cafodd y sylwadau hyn eu bwydo yn ôl i Lywodraeth Cymru yn ein cyfarfod diweddar o'r PCRh.

Mae Swyddogion Arweiniol y Rhaglen Cefnogi Pobl, y Cydlynnydd Datblygu Rhanbarthol ac aelodau wedi mynychu digwyddiadau ymgysylltu'r Grant Cymorth Tai a byddant yn rhoi adborth i'r PCRh trwy ei eitem agenda safonol newydd: "Diweddariad ar y Grant Cymorth Tai". Bydd unrhyw sylwadau o bwys gan aelodau'r PCRh yn cael eu cyfleu yn ôl i Lywodraeth Cymru trwy'r Cydlynnydd Datblygu Rhanbarthol a Swyddogion Arweiniol y Rhaglen Cefnogi Pobl.

7. Arfarniad Aelodau'r PCRh

Beth weithiodd yn dda?

- Gwelwyd cynnydd go iawn o ran gweithio a chomisiynu rhanbarthol gydag un prosiect ar waith (Demensia Cwm Taf); at hynny, comisiynwyd cyd-astudiaeth trwy gydol 18/19 a 19/20 a chafwyd ymrwymiad i gomisiynu hosteli brys yn rhanbarthol a'u lleoli ar draws Cwm Taf ym mis Ebrill 2020.
- Mae gweithio rhanbarthol wedi esblygu'n barhaus ar lefel weithredol gyda grwpiau o Swyddogion yn monitro'r Rhaglen Cefnogi Pobl ac yn rhannu arferion gorau, yn dyfeisio fframweithiau monitro cyffredin, ac yn edrych ar weithgareddau a ganiateir i sicrhau bod negeseuon cyson yn cael eu darparu i bob darparwr ledled y rhanbarth.
- Rhoddwyd ffocws mawr ar ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth a dangoswyd hyn ar lefel darparwr trwy adolygiadau a monitro contractau, yn ogystal â digwyddiadau ymgysylltu rhanbarthol (a hwyluswyd gan Brifysgol De Cymru). Crëwyd llyfrynau astudiaeth achos yn ogystal â ffilm fer i gefnogi rhwydweithio a chyfeirio effeithiol rhwng darparwyr.
- Adolygiad hostel yn cynnwys partneriaid a defnyddwyr gwasanaethau i gael barn eang am yr hyn sy'n gweithio a'r hyn sydd angen ei newid.

Beth sydd angen ei ddatblygu yn ystod y flwyddyn i ddod?

- Ymgeisio i'r Gronfa Cydlyniant Cymunedol/Grant Cymorth Tai gan weithredu deilliannau cyffredin.
- Gweithio i sicrhau cynrychiolaeth ar Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol i Gwm Taf Morgannwg ac os cytunir ar hyn, gellir trafod problemau ac archwilio cyfleoedd i weithio ar y cyd ar draws ystod o ddisgyblaethau fel iechyd.
- Parhau i weithio ar sail ranbarthol a chydlynu'r dasg o ddarparu hosteli yn yr ardal fel eu bod yn weithredol o 1 Ebrill 2020.
- Mae angen dealltwriaeth bellach o newidiadau posibl ac effaith y gwaith a'r ymgynghoriadau sy'n cael eu datblygu trwy LIC mewn perthynas â'r Grant Cymorth Tai, ac yn benodol Fformiwla Ariannu'r Rhaglen Cefnogi Pobl - mae angen dosbarthu adnoddau'n deg a'u targedu ar gyfer yr ardaloedd â'r angen mwyaf a bydd eisiau cynlluniau trosiannol i wneud hyn yn effeithiol a'u bwydo i ffrydiau gwaith eraill gan gynnwys yr Adolygiad o Anabledau Dysgu a'r Fframwaith Deilliannau Sengl.
- Integreiddio Pen-y-bont ar Ogrwr i'r Rhanbarth Cwm Taf Morgannwg newydd ac archwilio'r holl gyfleoedd gweithio a chomisiynu ar y cyd a allai ddod yn sgil hyn.
- Angen symud ymlaen o ran ennill cynrychiolaeth lechyd a bod yn glir ynghylch rôl y PCRh.

Sylwadau eraill

- Bu'r PCRh yn allweddol i gydlynu'r dasg o weithio a chomisiynu ar sail ranbarthol ac mae'n adnodd amhrisiadwy i ddod â'r holl gynrychiolwyr o amgylch y bwrdd.
- Mae'r PCRhau wedi'u trefnu a'u cydgyssylltu'n dda ac maent yn gweithredu'n dda fel arena i sicrhau bod y grwpiau cynllunio yn targedu ardaloedd sydd â'r angen mwyaf ac yn archwilio cyfleoedd rhanbarthol lle bo'n briodol.
- Byddai'n ddefnyddiol pe bai'r holl wybodaeth ynghylch trywydd y PCRhau a'r Cydlynwyr Datblygu Rhanbarthol i'r dyfodol yn cael ei chyfleu cyn gynted â phosibl a thrwy ymgynghoriad trwyadl, er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r adnodd gwerthfawr hwn a datblygu modelau effeithiol ag aelodau a phartneriaid y PCRh.

8. Llywodraethu a Chymhennu

- a) A oes gan y PCRh femorandwm dealltwriaeth cyfredol sydd wedi'i arwyddo gan bob aelod?
Nac oes – yn y broses o'i ddiwygio yn sgil y trefniant rhanbarthol newydd (Cwm Taf Morgannwg).
- b) A oes gan bob un aelod o'r PCRh ffurflen ddatganiad buddiant cyfredol?
Nac oes – yn y broses o'i ddiwygio yn sgil y trefniant rhanbarthol newydd (Cwm Taf Morgannwg).
- c) A yw'r PCRh wedi cyhoeddi ei gynllun gwariant diwethaf a'i gynlluniau gwariant ar gyfer pob Awdurdod Lleol yn y rhanbarth?
Ydy.
- d) A yw'r PCRh wedi cyhoeddi ei Gynllun Strategol Rhanbarthol diweddaraf?
Ydy. Mae'r CSRh ar gyfer 2017-2020 wedi'i gyhoeddi a gellir dod o hyd iddo ar <https://www.merthyr.gov.uk/media/3173/rsp_2017-20__revised_with_spend_plan_-eng.pdf>
Nid ydym wedi cyhoeddi'r diweddariad a gynhyrchwyd yn 2018 eto.
- e) A yw'r PCRh wedi cyhoeddi adolygiad blynyddol y llynedd eto?
Ydy, gellir dod o hyd i'r Adolygiad Blynyddol ar gyfer 17/18 ar dudalennau'r PCRh: <<https://www.merthyr.gov.uk/council/partnership-working/cwm-taf-regional-collaborative-committee/annual-reviews/>>
- f) A yw'r PCRh wedi cynhyrchu cofnodion o'i gyfarfodydd?
Ydy, cyhoeddir cofnodion yn ddwyieithog ar dudalennau'r PCRh a gellir dod o hyd iddynt ar: <https://www.merthyr.gov.uk/council/partnership-working/cwm-taf-regional-collaborative-committee/minutes-ofmeetings-and-key-messages/>

ATODIAD A

Ar 4 Mawrth 2019, cynhaliodd y Timau Cefnogi Pobl, gyda chymorth myfyrwyr ymchwil o Brifysgol De Cymru, “ddigwyddiad cysur” ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth yng Nghanolfan Fusnes Orbit Merthyr Tudful. Nod yr ymgynghoriad hwn oedd casglu data ymchwil ansoddol ar waith y Rhaglen Cefnogi Pobl a’i heffaith ar ddefnyddwyr. Mae adborth gan ddefnyddwyr yn bwysig oherwydd ei fod yn caniatáu inni ddod at ein gilydd a gwerthuso pa agweddau o’r rhaglen sy’n gweithio’n dda a pha feysydd a chynlluniau y gellid o bosibl eu hail-fodelu.

Mynychwyd sesiwn y bore gan ddefnyddwyr gwasanaeth a oedd yn byw mewn llety ar safle sefydlog, tra mynychwyd sesiwn y prynhawn gan ddefnyddwyr gwasanaeth a dderbynai gwasanaethau cymorth yn ôl yr angen.

Sesiwn y Bore

Roedd sesiwn y bore yn cynnwys defnyddwyr gwasanaeth o letyau ar safle sefydlog. Roeddynt yn cynnwys:

- 6 benyw rhwng 17 a 53 oed a ddefnyddiai’r gwasanaeth, a
- 13 gwryw rhwng 19 a 47 oed a ddefnyddiai’r gwasanaeth.

Dyma’r cwestiynau a ofynnwyd:

Cwestiwn 1. A yw’r cymorth a gawsoch wedi cwrdd â’ch disgwyliadau?

- Roen i’n meddwl y byddai’n wirioneddol anodd ac yn feichus iawn, ond mae hi wedi bod yn hawdd. Cefais i lawer o help ac erbyn hyn, rwy’n gwirfoddoli.
- Ydy – es i i’r Cyngor i ddweud wrthyn nhw fy mod i’n ddigartref. Cefais gefnogaeth wrth symud i mewn i’r hostel ac mae wedi bod yn wych.
- Mae’n well na hynny - roen i’n meddwl y byddai’r hostel yn swllyd ac yn caotig ond mae’n braf ac yn dawel.
- Roen i’n “syrffio soffas” gyda’r teulu cyn i mi gael cefnogaeth - doeddwn i ddim yn gwybod beth i’w ddisgwyl. Ar y dechrau, roedd y person nesaf i mi’n wirioneddol stwrlyd, ond mae hynny wedi’i sortio nawr. Mae’n grêt. Rwy’n hoffi bod yno.
- Ydy, mae pawb yn yr hostel yn iawn.
- Mae’n llawer gwell na’r disgwyl. Mae gen i fy mhreifatrwydd yno.
- Ydy, mae wedi fy rhoi i yn ôl ar y llwybr cywir.
- Doeddwn i ddim yn meddwl y byddai cystal â hyn.
- Mae wedi helpu fi i weld fy mlaenoriaethau yn well.
- Doeddwn i ddim eisiau mynd i hostel ond mae’r gefnogaeth wedi bod yn fendigedig - maen nhw wedi fy helpu i fynd i’r coleg.
- Ydy, rwy’i wedi dysgu ymdopi â phethau.
- Ydy, ni fyddwn i yma oni bai am y gefnogaeth a gefais.
- Ydy, ac rwy’i wedi cael fy nghyfeirio at sefydliadau eraill am help hefyd.
- Ydy, rwy’n hapus iawn â’r gefnogaeth.
- Mae wedi rhagori ar fy nisgwyliadau.
- Mae’n wych, rwy’n ôl ar fy nhraed ac yn dysgu coginio.

Cwestiwn 2. A fu unrhyw rwystrau i gyflawni’ch amcanion?

- Roen i fod i symud – rwy’i am symud allan i’m lle fy hun, ond ar y funud olaf fe ffeindion nhw allan fod gen i ôl-ddyledion, felly alla i ddim symud nes bod hynny wedi’i sortio.
- Cymerodd budd-dal tai oesoedd i’w ddatrys gan olygu fy mod wedi colli cyfle am le newydd.
- Y bobl roen i arfer hongian o gwmpas â nhw. Roedd yn rhaid i mi symud i ardal newydd i sortio fy hunan allan.

- Rwy'i eisiau swydd mewn ffatri ond mae trafndiaeth gyhoeddus yn fy nal i nôl - mae'n anobeithiol.
- Gwnaeth y Cyngor lanast o fy nghais i, felly collais i'r cyfle i gael tŷ.
- Fy nefnydd o gyffuriau.
- Roen i am fynd i lety â chymorth ond doedd modd gwneud hynny ar ôl darganfod fy mod i'n feichiog.
- Unigrwydd - mae'n wych yn y dydd ond yn unig iawn yn y nos.
- Problemau teuluol.
- Fi fy hun.
- Cyffuriau.
- Fy iechyd meddwl.
- Roedd gen i rwystrau cyn i mi fynd i loches.
- Cadw at reolau'r tŷ.
- Pobl y tu allan i'r hostel yn ceisio dylanwadu ar y rhai sy'n byw yno.

Cwestiwn 3. Pa effaith a gafodd y gefnogaeth ar eich bywyd?

- Rwy'i wedi cael cynnig swydd.
- Rwy'i wedi ennill fy ngherdyn CSCS ac mae gen i gymhwyster i'm helpu i gael swydd.
- Roen i wedi cyrraedd y gwaelod, yn syrffio soffas ac yn cysgu allan. Collais fy holl ffrindiau. Nawr, rwy'n teimlo fel person newydd.
- Cyn i mi symud i hostel, roen i wedi ceisio lladd fy hun. Nawr mae fy holl drafferthion wedi mynd, diolch i'm gweithiwr cymorth.
- Mae gen i gerdyn CSCS a llwyth o gymwysterau nawr.
- Rwy'n lân ers imi fod mewn hostel - dyna'r newid gorau.
- Pan gyrhaeddais i, roen i mor allan ohoni oherwydd y cyffuriau. Ni allaf ddiolch i'r staff ddigon am eu cefnogaeth. Fe roesan nhw'r help nad oedd unrhyw un arall yn ei gynnis.
- Maen nhw wedi fy helpu i fynd yn ôl i addysg.
- Mae'r gefnogaeth wedi fy helpu i ddod oddi ar gyffuriau dosbarth A.
- Helpodd fi i ddod yn annibynnol.
- Rwy'n fwy sefydlog nawr.
- Erbyn hyn, rwy'i allan o sefyllfa erchyll gyda fy nhad – rwy'i mewn lle diogel nawr.
- Helpodd fi i adeiladu perthnasoedd cadarnhaol.
- Helpodd fi i ddysgu'r ffordd o ymdopi.
- Mae'n teimlo fel bod gen i deulu o'm cwmpas i.
- Mae ansawdd bywyd cyffredinol wedi gwella.
- Nid ydw i mewn perthynas gamdriniol mwyach.
- Rwy'n symud i mewn gyda fy wejen yn fuan.
- Rwy'i wedi dysgu nad oes angen cyffuriau i ddod i ben â phethau.

Cwestiwn 4. A yw'r cymorth a gawsoch chi wedi bod yn ddigon hyblyg?

- Ydy.
- Rydw i wedi gosod fy nodau ac rwy'n gweithio tuag atyn nhw.
- Ydy - gallaf aildrefnu'r gefnogaeth os bydd angen - mae hynny'n iawn.
- Gallaf fynd i siarad â'm gweithiwr cymorth ar unrhyw adeg - mae'r drws ar agor.
- Ydy, maen nhw'n rhoi apwyntiadau i chi ymlaen llaw ond mae ganddyn nhw bolisi drws agored hefyd.
- Ydy, rwy'i wedi cael llawer o gymhlethdodau gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac mae fy ngweithiwr cymorth wedi dod gyda mi i gyfarfodydd.
- Mae fy ngweithiwr cymorth yn gwneud popeth sydd ei angen arna i - mae hi'n dda iawn yn ei gwaith.

- Mae fy ngweithiwr cymorth wedi fy helpu â phopeth ac wedi rhoi cefnogaeth dda iawn i mi.
- Ydy, mae gen i berthynas dda gyda'r staff.
- Ydy, mae'r gefnogaeth wedi cwrdd â fy anghenion.
- Ydy, mae fy ngweithiwr cymorth wedi mynychu apwyntiadau y tu allan i oriau gyda mi.
- Ydy, mae gen i rywrai i siarad â nhw bob amser.

Cwestiwn 5. A ydych chi'n fwy abl i fyw'n annibynnol o ganlyniad i'r cymorth a gawsoch?

- Ydw, mae fy nghytundeb tenantiaeth yma yn fy mharatoi i ar gyfer cael tenantiaeth fy hun yn y pen draw.
- Rwy'i wedi dilyn cwrs deuddydd ar gyllidebu.
- Mae gen i sgiliau coginio nawr.
- Roen i eisoes yn eitha annibynnol ar ôl bod ar fy mhen fy hun ers pan oeddwn i'n 18 oed.
- Rwy'n rheoli fy apwyntiadau nawr ac yn eu cadw.
- Rwy'n cadw at fy nghyfarfodydd cymorth yn well nawr.
- Rwy'i bob amser wedi bod yn annibynnol ond nawr bydda i'n cynilo arian ar gyfer fy nyfodol.
- Ydw, rwyf wedi cael "asesiad DOM" a oedd yn ddefnyddiol iawn.
- Ydw a nadw mewn gwirionedd - maen nhw wedi fy helpu i flaenoriaethu'r hyn sydd ei angen arnaf ac nid yr hyn rwyf ei eisiau.
- Rwy'n gwybod y galla i gyllidebu a fforddio pethau nawr.
- Ydw, rwy'n talu fy rhent fy hun.
- Rwy'i wedi dysgu coginio.
- Ydw, ond os bydd angen, bydd gen i gefnogaeth pan fydda i'n gadael.
- Ydw, rwy'n gwybod sut i gyllidebu fy arian nawr.
- Yn bendant.
- Rwy'n hyderus wrth siopa ar fy mhen fy hun yn awr.
- Gallaf reoli fy arian a'm tenantiaeth yn awr.
- Rwy'n fwy hyderus wrth "borthora" fy hun yn awr.
- Rwy'n llawer mwy annibynnol nawr.

Cwestiwn 6. A yw'r cymorth a gawsoch wedi gwella safon eich bywyd?

- Ydy, mae fy iechyd meddwl gymaint yn well.
- Rwy'n rheoli fy yfed yn awr ac yn teimlo gymaint well.
- Ymhob ffordd bosibl, ni allaf ddiolch iddyn nhw ddigon.
- Mae gen i fy ngherdyn CSCS ac rwy'n mynd i gael rhywle i fyw - mae pethau'n edrych yn bositif.
- Ydy - roeddwn i mewn ac allan o'r ddalfa, ond fe helpodd fy ngweithiwr cymorth fi i weld y darlun ehangach.
- Ydy, rwy'n teimlo'n ddiogel nawr.
- Ydy, o gryn dipyn.
- Mae wedi newid fy mywyd yn aruthrol, nid wy'n adnabod fy hun!
- Ydy, rwy'n teimlo'n fwy diogel.
- Does dim rhaid i mi boeni am le fydda i'n cysgu nawr.
- Gallu i weld y golau ar ddiwedd y twnnel nawr.
- Ydy, rwy'n gwybod y galla i siarad â rhywun.
- Ydy, rwy'n teimlo'n dda nawr.
- Dydw i ddim mor benchwiban nawr.
- Mae fy mywyd wedi gwella.

Cwestiwn 7. Ydych chi'n teimlo fod yna rai agweddau o'r cymorth wedi bod yn arbennig o ddefnyddiol i chi?

- Dim ond cael rhywun yno i sylwi bod fy iechyd meddwl yn dechrau dirywio.
- Cael cefnogaeth emosiynol a nhw'n mynd â fi i TEDS. Dwi ddim bellach ar unrhyw feddyginiaeth ac rwy'n teimlo'n well.
- Dim ond cael rhywun yno i mi.
- Help i drefnu fy ngwariant a rheoli fy arian.
- Cymorth emosiynol oedd yr hyn a helpodd fi fwyaf.
- Dilyn trefn iach o fyw yn yr hostel. Nid yw bod yn ddiflas yn dda i mi - mae angen i mi gadw'n brysur i barhau ar y trywydd iawn. Mae'n rhoi ffocws i mi ac yn fy helpu i ail-hyfforddi fy ymennydd.
- Mae'n helpu gyda fy nghyfarfodydd â'r gwasanaethau cymdeithasol.
- Cefnogaeth emosiynol.
- Bod â pholisi drws agored fel y gallwch siarad â rhywun pan fydd ei angen arnoch.
- Cael eich annog i wneud pethau, fel cwrs mentora cymheiriaid.
- Cael gwybod am gyrsiau y gallwn eu gwneud.
- Help gyda chyllidebu.
- Cwmsela.
- Cael fy nghymryd i sefydliadau eraill am gymorth arbenigol (iechyd meddwl).
- Mynd ar dripiâu sydd wedi'u trefnu.
- Gallu dod yn ffit yn y gampfa.
- Cael eich cyflwyno i Ymddiriedolaeth y Tywysog.
- Parhad di-dor y staff.
- Sesiynau grŵp.
- Dysgu coginio.
- Cyfarfodydd tŷ.

Cwestiwn 8. Ydych chi'n teimlo na weithiodd unrhyw elfen o'r cymorth i chi?

- Hoffwn i gael ymwelwyr.
- Nid wy'n hoffi pan fydd gweithwyr cymorth yn dod i mewn pan ŷch chi eisiau preifatrwydd.
- Pan wnaeth y Cyngor lanast o'm cais am lety.
- Gorfod mynd i sesiynau grŵp - mae'n well gen i un i un.
- Yr anadlennydd - mae'r terfyn yn rhy isel. Os ewch chi am ddiod fach, weithiau ni allwch ddod yn ôl i mewn, nid yw'n deg.
- Na, ddim mewn gwirionedd.
- Ni allaf feddwl am unrhyw beth nad yw wedi gweithio.
- Does dim nad oes wedi gweithio - oni bai am y staff, ni fyddwn i'n codi.
- Mae angen mwy o weithgareddau arnon ni.
- Hoffwn i fwy o ddsbarthiadau coginio.
- Sesiynau mwy ysgogol.
- Mae pobl o du allan yr hosteli yn ceisio ymyrryd a gwerthu cyffuriau i ni.

Cwestiwn 9. A gawsoch chi gymorth i ddod o hyd i lety newydd neu i gadw'ch llety cyfredol?

- Cefais help i osod cynigion a dewis yr ardal iawn i fyw ynddi.
- Cefais help i ddechrau meddwl am yr hyn sydd angen ei wneud wrth symud i fflat.
- Rwy'n cael help nawr i chwilio am fflatiau i'w rhentu yn y sector preifat.
- Mae angen mwy o amser arnaf, nid wy'n barod eto.
- Mae'r gweithwyr cymorth ar y bêl ac yn fy helpu gyda cheisiadau.

- Rhaid i mi dalu fy ôl-ddyledion cyn y gallaf gynnig am unrhyw beth - mae'n rhwystredig.
- Rwy'n hapus yn yr hostel ar hyn o bryd.
- Mae fy nghynigion ar system awtomatig sy'n gweithredu ar ei ben ei hun ar fy rhan.
- Does gen i ddim dewis lle rwy'n byw gyda'r system awtomatig ac ni allaf wrthod unrhyw beth.
- Do – rwy'n symud heddiw!
- Rwy'i wedi cael fy nghyfeirio at sefydliad arall am fflat.
- Pan ofynnaf am lety, maen nhw'n dweud wrtha i beth sydd ar gael.
- Do.

Cwestiwn 10. Ble fydddech chi petaech chi heb dderbyn cymorth y Rhaglen Cefnogi Pobl?

- Yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i le.
- Byddai fy iechyd meddwl yn waeth.
- Dal i syrffio soffas.
- Cymryd cocên a phils o hyd.
- Wedi marw.
- Mewn sefydliad meddwl.
- Ysmygu.
- Yn y carchar.
- Byw ar y strydoedd.
- Ar gyffuriau.
- Ar y stryd.
- Yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i le.
- Yn cymryd cyffuriau.
- Yn y carchar.
- Ysbyty meddwl.
- Dal mewn perthynas gamdriniol.
- Digartref.
- Mewn mynwent.
- Ar y strydoedd.
- Llety â chymorth.
- Ar sofffa rhywun neu ar y strydoedd.
- Heb amheuaeth, byddwn i ar y stryd oherwydd ni fyddwn i'n mynd yn ôl at fy nhad.

Sesiwn y Prynawn

Roedd sesiwn y prynawn yn cynnwys defnyddwyr y gwasanaethau hynny a ariennir gan y Rhaglen Cefnogi Pobl ac sy'n cynnig cymorth yn ôl y gofyn. Roeddynt yn cynnwys:

- 7 benyw rhwng 30 a 49 oed a ddefnyddiai'r gwasanaeth, a
- 5 gwryw rhwng 23 a 55 oed a ddefnyddiai'r gwasanaeth.

Dyma'r cwestiynau a ofynnwyd:

Cwestiwn 1. A yw'r cymorth a gawsoch wedi cwrdd â'ch disgwyliadau?

- Yn well na'r disgwyl.
- Byddwn i ar goll yn llwyr heb y cymorth hwn.

- Uwchlaw fy nisgwyladau.
- Mae fy ngweithiwr cymorth wedi bod o gryn help i mi.
- Roen i'n ansicr o'r hyn i'w ddisgwyl ond mae wedi bod yn wirioneddol dda.
- Ydy, mae fy ngweithiwr cymorth yn ddefnyddiol tu hwnt - rwy'n anelu at gyrraedd fy safon ddewisol.
- Mae wedi rhagori ar fy nisgwyladau.
- Mae'r gefnogaeth wedi fy helpu i oresgyn fy rhwystrau.

Cwestiwn 2. A fu unrhyw rwystrau i gyflawni'ch amcanion?

- Fy anabledd dysgu.
- Credyd cynhwysol.
- Hoffwn i ymgeisio am swydd ond rwy'n ofni y byddai'n peryglu fy mudd-daliadau.
- Fy nghyflwr iechyd.
- Diffyg CV.
- Fy iechyd meddwl.
- Fy mhroblemau cof byrdymor.
- Fy anableddau.
- Diffyg cludiant i gyflogaeth.
- Argaeledd TG.
- Rwy'n cael trafferth gyda TG i geisio cael swydd.
- Diffyg sgiliau.
- Gofal plant fforddiadwy i'w gwneud hi'n werth gweithio.
- Weithiau, ni all fy ngweithiwr cymorth ddod gyda mi (i asesiadau PIP, er enghraifft) pan fydd ei hangen arna i.
- Rwy'i eisiau mynd yn ôl i'r coleg ond bydd fy mudd-daliadau yn dod i ben.
- Fy nibyniaeth ar gyffuriau.
- Cartrefi rhent o ansawdd gwael.
- Mae pryder yn fy llesteirio, ond mae fy ngweithiwr cymorth yn ceisio fy helpu i gyda hynny.
- Fy nibyniaeth ar alcohol.
- Mae credyd cynhwysol yn rhwystr mawr.
- Mae angen i mi fynd i hostel sych ond bydd hynny'n arwain at golli fy ngweithiwr cymorth presennol. Dydw i ddim eisiau hynny, ond mae angen cefnogaeth ychwanegol arna i gan arbenigwyr.
- Credyd cynhwysol - nid wy'n hyddysg mewn cyfrifiaduron.

Cwestiwn 3. Pa effaith a gafodd y gefnogaeth ar eich bywyd?

- Rwy'i wedi gallu dychwelyd i'm cartref fy hun.
- Galla i reoli fy miliau nawr.
- Galla i fyw ar fy mhen fy hun, yn annibynnol.
- Rwy'n gwneud gwaith gwirfoddol nawr ac rwy'i wrth fy modd.
- Rwy'i wedi arwyddo ar gyfer tenantiaeth newydd.
- Mae'r plant yn ôl o dan fy ngwarchodaeth i.
- Mae'n help i reoli gwrthdrawiadau.
- Rwy'n hapus iawn â'r gefnogaeth a gefais i – rwy'i wedi symud ymlaen yn bell iawn.
- Rwy'n fwy annibynnol ac yn ceisio gweithio tuag at fyw heb gefnogaeth.
- Mae cael rhywun i ffonio os oes angen yn gwneud gwahaniaeth mawr.
- Cael rhywun i weithredu fel seinfwrdd – rhywun anfeirniadol.

Cwestiwn 4. A yw'r cymorth a gawsoch chi wedi bod yn ddigon hyblyg?

- Ydy, mae wedi bod yn hyblyg iawn.
- Roedd yn rhaid i mi aros am amser hir i gael cefnogaeth (2 fis).
- Ydy, maen nhw yno yn ystod yr wythnos, ond nid ar benwythnosau ond mae hynny'n iawn, does dim ots gen i.
- Byddai'n dda gen i petaen nhw'n mynd gyda mi i apeliadau PIP a phethau felly.
- Maen nhw'n dod ag ail weithiwr cymorth er mwyn dod i'w adnabod rhag ofn y byddan nhw i ffwrdd o'r gwaith.

Cwestiwn 5. A ydych chi'n fwy abl i fyw'n annibynnol o ganlyniad i'r cymorth a gawsoch?

- Ydw, galla i reoli fy arian nawr.
- Ydw, yn bendant.
- Roen i'n cuddio llythyrau a biliau, yn claddu fy mhen yn y tywod, ond nawr fy mod i'n cael cefnogaeth, nid yw hynny'n digwydd.
- Rwy'n llawer mwy hyderus nawr.
- Ydw, galla i fyw'n annibynnol nawr.
- Bellach, rwy'n gwybod pryd mae angen imi wneud pethau.

Cwestiwn 6. A yw'r cymorth a gawsoch wedi gwella safon eich bywyd?

- Ydy, mae wedi gwella yn bendant.
- Mae wedi cymryd y pwysau oddi arna i.
- Ydy, yn fawr iawn.
- Rwy'n gwybod bod fy ngweithiwr cymorth ddim ond galwad ffôn i ffwrdd - mae hynny'n gwneud i mi deimlo'n well.
- Ydw, rwy'n gwneud gwaith gwirfoddol nawr – trefnwyd hynny gan fy ngweithiwr cymorth. Felly, nawr mae gen i brofiad gwaith gwerthfawr.
- Cael fy mhlant yn ôl yw'r peth gorau.
- Ydw, yn fawr iawn – rwy'n gallu talu biliau, cyllidebu. Rwy'n iawn nawr. O'r blaen, fe ddaeth fy mudd-daliadau i ben ac roen i'n byw o'r llaw i'r genau.
- Ydw, ond rwy'n dal i gael rhai problemau gyda chymydog treisgar.

Cwestiwn 7. Ydych chi'n teimlo fod yna rai agweddau o'r cymorth wedi bod yn arbennig o ddefnyddiol i chi?

- Adeiladu perthnasoedd eto.
- Cael ad-daliad treth!
- Popeth - mae wedi rhoi'r hyder i mi ymdopi â bywyd bob dydd.
- Cael rhywfaint o brofiad gwaith.
- Rhoi trefn ar fy mudd-daliadau.
- Yr help a gefais i gadw fy apwyntiadau a rheoli fy miliau ac ati.
- Talu fy nyledion i ffwrdd - mae'n rhyddhad mawr.
- Rwy'i wedi dechrau cynilo ac mae hynny'n gam mawr i mi.
- Help i fynd i weld Cyngor ar Bopeth.
- Cael fy ngweithiwr cymorth i ddod i'm hapwyntiadau cyntaf, mae hynny'n ddefnyddiol iawn.
- Peidio â dod â chefnogaeth i ben cyn fy mod i'n barod - mae'n dal i fod yno ar fy nghyfer i.

Cwestiwn 8. Ydych chi'n teimlo na weithiodd unrhyw elfen o'r cymorth i chi?

- Doeddwn i ddim yn ymwybodol o'r Rhaglen Gefnogi Pobl. Doeddwn i ddim yn gwybod y gallwn i gael yr help. Pe bawn i, gallwn i fod wedi cael fy ngweithwyr cymorth i helpu ynghynt.
- Gall fod yn rhwystredig nad yw pethau'n digwydd yn gyflymach.
- Mae'n cymryd amser hir i sefydlu budd-daliadau.

Cwestiwn 9. A gawsoch chi gymorth i ddod o hyd i lety newydd neu i gadw'ch llety cyfredol?

- Rwy'n cael cefnogaeth nawr i chwilio am rywle i fyw ar fy mhen fy hun.
- Rwy'i wedi arwyddo tenantiaeth newydd.
- Cefais gefnogaeth i brynu'r hanner o'm cartref oedd yn eiddo i'm cyn-bartner.
- Roen i'n byw rhywle nad oedd yn addas – rwy'i wedi symud i le llawer gwell.
- Rwy'i eisiau symud ond yn poeni y bydd newid cyfeiriad yn achosi newid i'r Credyd Cynhwysol ac nid wyf am i hynny ddigwydd.
- Do, rwy'i wedi symud o hostel i le newydd.
- Do, roedd y landlord yn mynd i fy nhroi allan oherwydd bod gen i ôl-ddyledion ond nawr rwy'i wedi talu fy nyledion.
- Do, rwy'n cael help i chwilio am rywle newydd.

Cwestiwn 10. Ble fydddech chi petaech chi heb dderbyn cymorth y Rhaglen Cefnogi Pobl?

- Mewn dyled, yn ôl pob tebyg.
- Dyledion yn gwaethygu – byddwn i wedi cael fy nhroi allan yn y pen draw.
- Hunanladdol.